Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Swydd Ddisgrifiad NPS (SDd)

# Band 5 NPS

# Cyfarwyddiaeth: Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol / Datblygu a Newid Busnes

# Swydd Ddisgrifiad: Arweinydd Integreiddio CRC / NPS

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | NPS-JES-0024_Band 5 CRC / NPS Integration Lead_v2.0 |
| **Math o Ddogfen** | Rheoli |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dosbarth** | Annosbarthedig |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 3/7/2019 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Y Tîm Gwobrwyo |
| **Tystiolaeth ar gyfer y SDd** | |

**Swydd Ddisgrifiad NPS**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Arweinydd Integreiddio CRC/NPS |
| **Cyfarwyddiaeth** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Datblygu a newid busnes |
| **Band** | 5 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Mae'r Arweinydd Integreiddio'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu ymyriadau fel y gellir gwella'n barhaus y prosesau gweithredol rhwng NPS a CRC's a phartneriaid cyflawni eraill. Mae'r rôl yn gyfrifol hefyd am ddarparu cymorth i bartneriaid newid busnes i Is-adrannau'r NPS a Dirprwy Gyfarwyddwyr ar lefel ranbarthol yn ôl cyfarwyddwyd yr Uwch Reolwr Integreiddio Systemau. |
| **Crynodeb** | Bydd y tîm Integreiddio Systemau'n gyfrifol am sicrhau bod NPS yn gweithio mor effeithiol â phosibl ag CRC's a phartneriaid cyflawni eraill. Bydd y rolau'n cynnwys nodi a chydlynu cyflawniad i wella effeithiolrwydd gweithrediadau. Yng Nghymru bydd y rolau hyn yn mynd ymhellach na Phrawf – byddant hefyd yn cynnwys integreiddio Carchardai / Prawf. |

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau, y gweithgareddau a'r dyletswyddau canlynol:<br><br>Gwella a gweithredu prosesau gweithredol effeithiol rhwng NPS a'i bartneriaid<br>• Cynnal dadansoddiad i wella, a gwneud prosesau gweithredol, a pherthnasoedd, rhwng NPS a CRC a grwpiau partneriaeth ehangach o'r NPS yn fwy effeithiol – er enghraifft y CPS, yr Heddlu, Llysoedd a Charchardai<br>• Helpu i wella sut yr ymdrinnir â chysylltiadau hanfodol yn y prosesau gweithredol rhwng NPS a CRC's, a rhwng NPS a grwpiau partneriaeth ehangach.<br><br>Gweithredu rheoli newid cysylltiedig<br>• Cynllunio a dylunio'r newid sydd ei angen i wneud prosesau gweithredol rhwng partneriaid cyflawni mor effeithiol â phosibl<br>• Cydlynu mewnbwn gweithredol i brosiectau'r Pencadlys i wella'r rhyngwyneb rhwng y ddau sefydliad a rhwng NPS a grwpiau partneriaeth eraill (e.e. CPS ac ati)<br>• Rheoli'r cysylltiadau a'r rhyngddibyniaethau â rhaglenni newid lleol<br><br>Cyfathrebu'n effeithiol<br>• Darparu gwybodaeth, adborth a chyngor<br>• Dylanwadu a pherswadio<br>• Cadeirio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd gan ddefnyddio sgiliau, arddulliadau a dulliau priodol<br><br>Gwella eich perfformiad eich hun<br>• Rheoli eich adnoddau a'ch datblygiad proffesiynol eich hun<br><br>Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau hanfodol<br>• Cysylltu â staff i gael, coladu a dadansoddi gwybodaeth, gan ddatblygu systemau a llunio adroddiadau yn ôl yr angen<br>• Datblygu a defnyddio data i ganfod tueddiadau ac i weithredu'n briodol i gynnal a gwella perfformiad<br>• Cynllunio, gweithredu a rheoli systemau i gyfnewid gwybodaeth, data a chudd-wybodaeth sensitif.<br><br>Rheoli Amrywiaeth ac Ansawdd<br>• Cyfrannu at ddiwylliant a systemau sy'n hybu cydraddoldeb ac sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth |
| | • Rhoi polisïau amrywiaeth y gwasanaeth ar waith a chydweithio'n effeithiol â'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac ni fwriedir iddi fod yn rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto o dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â Deiliad y Swydd yn y lle cyntaf. |
| **Ymddygiadau** | • Newid a Gwella<br>• Cydweithio<br>• Gwneud Penderfyniadau Effeithiol<br>• Rheoli Gwasanaeth o Safon<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cyfathrebu a Dylanwadu |
| **Cryfderau** | Argymhellir dewis cryfderau'n lleol, awgrymir 4-8. |

| | |
|---|---|
| **Profiad Hanfodol** | Gallu dangos profiad o lwyddo i ganfod a gwella effeithlonrwydd sefydliad, dangos profiad o weithredu prosiectau newid llwyddiannus, a phrofiad gweithredol o weithio mewn lleoliad Prawf. |
| **Gofynion technegol** | NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol).<br><br>Microsoft: Word, Excel, Access, Outlook, a PowerPoint (neu feddalwedd cyfatebol h.y. Lotus Notes). |
| **Gallu** | |

| | |
|---|---|
| **Cymhwystra Gofynnol** | • Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddynt gychwyn mewn swydd.<br>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf gyda HMPPS.<br>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith (Oriau Anghymdeithasol) Lwfansau** | |

**Proffil Llwyddiant**

| Ymddygiadau | Cryfderau<br><br>Argymhellir dewis cryfderau'n lleol, awgrymir 4-8. | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Newid a Gwella | | | Gallu dangos profiad o lwyddo i ganfod a gwella effeithlonrwydd sefydliad. | NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol) |
| Cydweithio | | | Profiad o weithredu prosiectau newid yn llwyddiannus. | Sgiliau TG; Microsoft: Word, Access, Excel, Outlook, a PowerPoint (neu feddalwedd cyfatebol, e.e. Lotus Notes) |
| Gwneud Penderfyniadau Effeithiol | | | Profiad gweithredol o weithio o fewn lleoliad Prawf. | |
| Rheoli Gwasanaeth o Safon | | | | |
| Arweinyddiaeth | | | | |
| Cyfathrebu a Dylanwadu | | | | |